

**Dilyniannu genomau cyfan
ar gyfer amheuaeth o ganser**

**Gwybodaeth i gleifion
ac aelodau o'r teulu**



**Gwasanaeth
Genomeg Feddygol**

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer cleifion ac aelodau o'u teulu a allai gael cynnig prawf dilyniannu genom cyfan ar gyfer canser.

Drwy Wasanaeth Genomeg Feddygol y GIG, mae dilyniannu genomau cyfan bellach ar gael ar gyfer cyflyrau penodol lle mae'r dystiolaeth wyddonol yn dangos y gall helpu i wella gofal cleifion. Bydd eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn rhoi gwybodaeth bellach i chi a byddwch yn gallu gofyn cwestiynau cyn i chi benderfynu cael y prawf ai peidio.



Beth yw eich genom?

Eich genom yw'r wybodaeth sydd ei hangen i adeiladu'r corff dynol a'i gadw'n iach.

Mae wedi'i ysgrifennu mewn cod cemegol o'r enw DNA.

Mae eich genom yn cynnwys segmentau o DNA, a elwir yn genynnau. Achosir canserau gan gelloedd â newidiadau anarferol yn eu genom.

Mae'r newidiadau hyn yn aml yn digwydd yn ystod bywyd unigolyn.

Gellir trosglwyddo rhai newidiadau drwy eich genynnau. Gall y rhain olygu bod unigolyn dan risg uwch o gael canser.

Beth all prawf Dilyniannu Genom Cyfan ei ddweud wrthyfch?

Er bod y prawf Dilyniannu Genom Cyfan yn edrych ar eich genom cyfan, mae'r prawf yn canolbwyntio ar newidiadau mewn genynnau sy'n gysylltiedig â chanser; nid yw'n chwilio am newidiadau mewn genynnau sy'n achosi cyflyrau eraill.

Gall prawf dilyniannu genom cyfan ar gyfer canser eich helpu chi a'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i ddeall:

- Pam y gwnaethoch ddatblygu'r canser
- Y math o ganser sydd arnoch a sut y gallai ymddwyn
- Pa driniaethau allai fod fwyaf effeithiol ar gyfer eich canser
- A ydych mewn perygl o ddatblygu canserau eraill yn y dyfodol
- A allai aelodau eich teulu fod dan risg uwch o ddatblygu canser.

Os byddwch yn penderfynu cael prawf dilyniannu genom cyfan, bydd eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn trafod y broses gyda chi a pha mor hir y bydd yn ei gymryd i gael canlyniad.



Beth sy'n digwydd mewn prawf Dilyniannu Genom Cyfan?

- Cesglir sampl o diwmor (sampl o waed neu fêr esgyrn os yw'r prawf Dilyniannu Genom Cyfan ar gyfer cancer y gwaed)
- Cesglir sampl o waed neu'r croen (os yw'r prawf Dilyniannu Genom Cyfan ar gyfer cancer y gwaed, cymerir sampl o waed, poer neu'r croen)
- Anfonir y samplau i labordy profion geneteg i'w dadansoddi
- Dychwelir y canlyniadau i'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol (gweler 'Cael eich canlyniadau').

Mae prawf Dilyniannu Genom Cyfan ar gyfer cancer yn cynnwys dilyniannu genom cyfan y tiwmor a sampl o'ch gwaed, poer neu'r croen. Mae dilyniant y tiwmor yn cael ei gymharu â'r gwaed, y poer neu'r croen i ddarparu gwybodaeth i gefnogi diagnosis neu i'ch helpu chi a'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i benderfynu ar yr opsiynau triniaeth mwyaf priodol.

Os cynigir prawf Dilyniannu Genom Cyfan i chi ar gyfer cancer y gwaed, eich sampl gwaed neu fêr esgyrn fydd yn cyfrif fel sampl y tiwmor. Yn yr achos hwn, bydd dilyniant genom cyfan eich sampl gwaed yn cael ei gymharu â sampl poer neu'r croen.

Bydd y prawf dilyniannu genom cyfan yn cael ei gynnal ar sampl o'r tiwmor sydd eisoes wedi'i dynnu fel rhan o'ch triniaeth. Efallai y bydd angen i chi drefnu apwyntiad arall ar gyfer casglu eich sampl gwaed, poer neu'r croen. Yna anfonir y samplau i labordy profion geneteg i'w dadansoddi.

Cewch gyfle i drafod y prawf dilyniannu genom cyfan gyda'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych cyn i chi benderfynu a ydych am gael y prawf ai peidio.

Os byddwch yn penderfynu peidio â chael prawf dilyniannu genom cyfan, byddwch yn parhau i dderbyn y gofal a'r gefnogaeth orau bosib gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol.



Cael eich canlyniadau

Unwaith y bydd sampl wedi'i chymryd, caiff ei dadansoddi ac anfonir y canlyniad at eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Gallai canlyniad y sampl tiwmor ddarparu gwybodaeth am eich cancer a'r opsiynau triniaeth mwyaf priodol.

Drwy gymharu canlyniad y sampl tiwmor â'r sampl gwaed, poer neu'r croen, gallai canlyniad y prawf dilyniannu genom cyfan ddangos a ydych dan risg uwch o ddatblygu canserau pellach a allai gael eu hetifeddu a bod â goblygiadau i aelodau eich teulu.

Yn yr achos hwn, efallai y cewch eich atgyfeirio at Wasanaeth Geneteg Glinigol i drafod eich opsiynau a sut i reoli eich risg o ganser.

Bydd eich ymgynghoriad â Geneteg Glinigol hefyd yn eich helpu i feddwl am sut i siarad ag aelodau eich teulu am y canlyniad.



Data genomig a diogelu data Cedwir yr holl ddata yn ddiogel ac yn gyfrinachol.

Defnyddir eich data yn unol â chyfraith y DU a pholisi'r GIG. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.england.nhs.uk/contact-us/privacy-notice


Caiff y data o'ch prawf genomeg ei roi i mewn i gronfa ddata genedlaethol ddiogel ar gyfer Gwasanaeth Genomeg Feddygol y GIG. Bydd y system hon yn storio data am eich prawf a'r canlyniadau. Dim ond staff sydd wedi'u cymeradwyo all weld eich data.

Defnyddio data at ddibenion yswiriant

Ni fydd cwmnïau yswiriant yn cael mynediad at wybodaeth am unrhyw brawf genetig rhagfynegol yr ydych wedi'i gael heb eich caniatâd penodol.

Wrth wneud cais am bolisi yswiriant, efallai y bydd cwmnïau yswiriant yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth feddygol amdanoch chi a'ch teulu. Mae'r wybodaeth y mae angen i chi ei rhannu gyda chwmni yswiriant yn cael ei rheoleiddio gan god llywodraeth gwirfoddol, sef y Cod ar Brofion Genetig ac Yswiriant:

www.gov.uk/government/publications/code-on-genetic-testing-and-insurance



Defnyddio data at ddibenion ymchwil

Mae ymchwil yn rhan hanfodol ofal iechyd ac mae data iechyd a gyfrannwyd gan filiynau o gleifion eraill y GIG, wedi helpu i ddatblygu'r meddyginiaethau a'r triniaethau y mae cleifion yn eu cael heddiw.

Fel rhan o Wasanaeth Genomeg Feddygol y GIG, bydd pob claf yn cael yr opsiwn i gyfrannu ei ddata genomeg i lyfrgell ddiogel fel y gall ymchwilwyr sydd wedi'u cymeradwyo ddefnyddio'r data hynny ar ffurf nad yw'n datgelu hunaniaeth yr unigolyn.

Os byddwch yn dewis gwneud hyn, bydd eich data yn helpu ymchwilwyr a gwyddonwyr i ddatblygu triniaethau'r dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am sut y gall eich data genomig helpu ymchwil, ewch i wefan Genomeg Lloegr:

www.genomicsengland.co.uk

Os byddwch yn dewis cyfrannu at y lyfrgell ymchwil hon, efallai y bydd rhywun yn eich tîm clinigol (neu weithiau Genomeg Lloegr) yn cysylltu â chi yn y dyfodol i roi rhagor o wybodaeth i chi os oes unrhyw beth wedi'i ganfod a allai fod yn berthnasol i'ch iechyd chi neu iechyd eich teulu, neu os bydd ymchwilwyr yn canfod astudiaeth a allai fod yn berthnasol i chi a'ch cyflwr. Yna byddem yn esbonio'r astudiaeth, a byddech yn gallu dweud a fyddech yn barod i gymryd rhan ai peidio.

Gwybodaeth bellach

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ddilyniannu genomau cyfan gan y sefydliadau canlynol:

www.nhs.uk/conditions/genetic-and-genomic-testing